




Ysgol
Dyffryn Conwy
ysgoldyffrynconwy.org

Bwletin i Rieni Medi 2014



Dathlu Canlyniadau Lefel A



Dathlu Canlyniadau TGAU

Annwyl Riant/Gwarcheidwad a Chyfeillion Ysgol Dyffryn Conwy,

Mae'n bleser mawr gennyf ysgrifennu atoch fel Pennaeth parhaol newydd yr ysgol yn dilyn fy mhenodiad nos Fercher y 24ain o Fedi. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at arwain yr ysgol lwyddiannus ac unigryw hon dros y blynedd nesaf ac i gydweithio efo chi fel rhieni, staff, disgyblion a llywodraethwyr yr ysgol, cymuned ysgolion cynradd yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Yn dilyn llwyddiannau'r diwrnodau canlyniadau Lefel A a TGAU yn ystod mis Awst (erthygl ar dudalen 7) braf yw gallu cadarnhau bod canlyniadau'r ysgol ar gyfer asesiadau allanol, yn brofion llythrennedd a rhifedd, asesiadau diwedd CA3, TGAU a Lefel A yn parhau i ddangos cynnydd a llwyddiant yr ysgol mewn cymhariaeth genedlaethol ac awdurdod. Rydym yn hynod falch o'n disgyblion a'u llwyddiannau yn y meysydd hyn. Roedd y noson gwobrwyo 16/09/14 (gwelir tudalen 8-9) yn gyfle arbennig i gydnabod llwyddiannau disgyblion unigol yn yr asesiadau hyn. Bydd dadansoddiad a gwybodaeth bellach ar gael yn Adroddiad y Pennaeth i Rieni a gyhoeddir yn ystod Tymor yr Hydref. Yn y cyfamser, hoffwn nodi balchder mawr yn y ffaith fod data cychwynnol y Cynulliad yn cadarnhau fod canlyniadau A*-C TGAU Saesneg wedi gwella i 72% (69% 2013), Cymraeg Iaith gyntaf wedi cynyddu i 84% (72% 2013), Gwyddoniaeth i 95% (89% 2013) a Mathemateg yn parhau yn uchel yn 73% (74% 2013). Diolch i'r holl staff a disgyblion am eu gwaith caled wrth barhau i wella safonau yn y pynciau craidd hyn.

Yn dilyn canlyniadau TGAU llwyddiannus rydym hefyd wedi croesawu 95 o ddisgyblion i flwyddyn 12 yn cynnwys cyn ddisgyblion a disgyblion newydd o ddalgylch y Moelwyn. Croeso hefyd i chi fel rhieni newydd a chyfarwydd. Bydd noson rhieni i flwyddyn 12 yn cael ei gynnal ar nos Fawrth 11eg o Dachwedd, cyfle i rannu manau cychwyn a thargedau disgyblion. Mae blwyddyn 12 eisoes wedi llawn ymgartrefu yn yr ysgol a'u cyfraniad at fywyd dyddiol yr ysgol ynghyd a'u pynciau i'w weld yn barod - dymuniadau gorau iddynt efo'u cyrsiau dros y flwyddyn.

Mae blwyddyn 7 arbennig wedi cychwyn efo ni yn yr ysgol ac wedi dechrau dod i arfer a'u hamserlenni, pynciau newydd a sefydlu corneli a chyrchfannau ar gyfer eu hamser egwyl a chinio. Braf iawn yw eu gweld yn gwneud ffrindiau newydd ac yn cymdeithasu efo disgyblion hyn yr ysgol. Bydd **noson rieni efo tiwtoriaid dosbarth a'r UDRh ar gyfer blwyddyn 7 ar nos Fawrth y 25ain** o Dachwedd er mwyn trafod sut maent wedi setlo yn yr ysgol a rhannu gwybodaeth am y drefn asesu. Yn y cyfamser peidiwch ag oedi cysylltu efo'r ysgol os oes unrhyw bryderon gennych. Gallwch gysylltu efo Miss Angharad Ellis, Pennaeth Dysgu a Chynnydd blwyddyn 7 neu efo fi, Mr John Roberts (Dirprwy) neu Mrs Delyth Gray (Pennaeth Cynorthwyol).

Mae dechrau'r tymor wedi bod yn un byrlymus a llawn â'n bwriad yn y bwletin hwn ydy tynnu rhai o'r digwyddiadau a llwyddiannau at ei gilydd i'w rannu efo chi fel rhieni/gwarcheidwad. Mae'r bwletin felly yn cynnwys diweddariad ar weithgareddau Medi, ynghyd a **Chalendr yr Ysgol ar gyfer 2014/15 a Chalendr Asesu i Rieni 2014/15**.

Hoffwn gymryd y cyfle hefyd i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth i'r Polisi Gwisg Ysgol, a'ch cefnogaeth i godi'n canran presenoldeb. Gofynnwn am eich cefnogaeth i barhau i sicrhau safonau uchel mewn gwisg, ac i'n cynorthwyo i ymateb i'n targed o 95% o bresenoldeb ysgol gyfan yn dilyn cynnydd o 93.3% i 94.4% llynedd. Mae presenoldeb yn cael cryn sylw gan y llywodraeth a'r wasg ar hyn o bryd a bydd yn un o'r flaenoriaeth gennym yn ein Cynllun Gwella Ysgol 2014/15*.

Yn gywir,

Elan Wyn Davies, Pennaeth.

*[*Cyhoeddir y Cynllun Gwella ar gyfer 2014/15 ar safwe'r ysgol yn dilyn Cyfarfod Llawn y Llywodraethwyr].*

PIGION Medi 2014: *Gweithgareddau a Llwyddiannau*

Cychwynnodd y tymor eleni efo llu o weithgareddau anwytho i ddisgyblion gan gynnwys gweithdai astudio i flwyddyn 11 a 13 a chyfnod anwytho i gwricwlwm newydd gan gynnwys y Fagloriaeth Gymreig i flwyddyn 10 a 12. Bu blwyddyn 7 yn cydweithio ar heriau gan gynnwys helpa drysor her twr sbageti - roedd cryn fwrllwm yn nosbarthiadau blwyddyn 7 o ganlyniad! I flwyddyn 8 a 9 roedd cyfle hefyd iddynt bontio i'w blwyddyn a chwricwlwm newydd ac i gychwyn ar eu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol. I flwyddyn 8 golygai hyn dechrau edrych ar hawliau gan gynnwys y broses o ethol ar gyfer Cyngor yr Ysgol a Fforymau dosbarth a blwyddyn. I flwyddyn 9 roedd y cyfle i ddechrau edrych ar eu proffiliau personol ar ddechrau blwyddyn bwysig fydd yn cynnwys gwneud dewisiadau ar gyfer eu llwybrau dysgu i'r dyfodol.

Taith Prydain:

Ar ddydd Llun yr 8fed o Fedi aeth yr ysgol gyfan allan i dref Llanrwst i weld y beicwyr oedd yn rhan o Daith Prydain yn rasio drwy'r dref. Hoffwn ganmol ymddygiad y disgyblion yn ystod y gweithgaredd, profwyd unwaith eto eu gallu i gymryd cyfrifoldeb da dros eu hunain ac eraill. Roedd blwyddyn 12 a 13 yn gweithredu fel 'marshalls' yn ystod y pawns ac yn dangos yn glir eu natur gymwynasgar a'u brwdfrydedd i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol.

LLAIS Y DISGYBL:

Ethol Cynrychiolwyr Cyngor Yr ysgol:

Bellach mae cynrychiolwyr dosbarth, blwyddyn a Chyngor yr Ysgol ym mlwyddyn 7-11 wedi eu hethol gan eu cyfoedion. Braff yw cyhoeddi mae'r disgyblion sydd ar y Cyngor Ysgol eleni yw:

- Blwyddyn 7:** Sam Bagnall, Sion Meirion a Ela Medi Roberts
- Blwyddyn 8:** Carwen Williams a Gwion Tudur
- Blwyddyn 9:** Katie Jones, Mali Cotcher a Kieran Mullis-Evans
- Blwyddyn 10:** Gwion Jones, Jack Edwards a Cadi Edwards
- Blwyddyn 11:** Rachel Wyn Williams a Harri Thomas

Dymunwn yn dda iddynt yn eu rolau a'u cyfrifoldebau newydd! Bydd y Cyngor yn cyfarfod am y tro cyntaf ar ddydd Iau 2/10/14.

Cyngor Ieuenctid Conwy:

Bu disgyblion fforwm blwyddyn 9 a 10 hefyd yn ethol cynrychiolwyr ar gyfer Cyngor Ieuenctid Conwy. Etholwyd Rhydian Jones a Mali Cotcher i gynrychioli'r ysgol ar y fforwm pwysig hwn. Byddent yn cychwyn eu cyfnod drwy fod yn rhan o weithgaredd anwytho dros benwythnos y 17-18 o Hydref.

Ethol Prif Swyddogion a Thimau Arwain:

Mae'r chweched dosbarth wedi bod yn brysur iawn yn ethol hefyd y tymor hwn. Yn gyntaf cynhaliwyd marchnad timau arwain y 6ed dosbarth. Yn dilyn llwyddiant y grwpiau hyn mewn datblygiad yr ysgol, a'u cyfraniad at lwyddiant yr ysgol yn yr arolwg llynedd, roedd dealltwriaeth glir gan ddisgyblion y 6ed dosbarth o'r meysydd i'w datblygu eleni a'r disgyblion a all arwain ar y meysydd hyn. Aethent ati felly i ethol arweinwyr i dimau arwain y 6ed dosbarth yn y meysydd canlynol: rhifedd, llythrennedd, y Gymraeg a diwylliant Cymreig, TGCh, Cysylltiadau Cymunedol, Cynradd-Uwchradd, Delwedd yr ysgol a Pherfformio.

Mae gan bob tîm agwedd ysgol gyfan i'w ddatblygu a blaenoriaethau grŵp ar gyfer y flwyddyn. Dymunwn yn dda iddynt efo'u cynlluniau!

Yr ail etholiad oedd **Etholiad Refferendwm Ysgol Dyffryn Conwy**. Yn dilyn arweiniad gan yr Adran Hanes ar y Refferendwm yn yr Alban aethent ati i gynnal eu refferendwm eu hunain. Roedd 100% o'r disgyblion wedi pleidleisio a'r canlyniad yn debyg iawn i'r hyn ddigwyddodd yn yr Alban - 43% o blaid i'r Alban ymadael a'r Deyrnas Unedig a 57% yn erbyn. Gwyddom y bydd y disgyblion yn cadw golwg barcud ar y ddadl wleidyddol sydd bellach yn cael ei gynnal ar draws y Deyrnas Unedig o hyn allan.

Yn olaf, yn ystod y pythefnos diwethaf, cynhaliwyd proses **ethol Prif Fachgen, Prif Ferch a Dirprwyon** yr ysgol. Yn dilyn proses ethol grymus a byrlymus etholwyd **Lois Evans ac Osian Roberts fel Prif Ferch a Prif Fachgen** - llongyfarchiadau mawr iddynt. Yn cydweithio efo Lois ac Osian fel **Dirprwyon eleni fydd: Tolly Taylor, Viktor Hewitt, Natasha Bell ac Alannah Russell**. Dymunwn yn dda iddynt wrth i'r tîm o arweinwyr ifanc gychwyn ar eu rôl o arwain y 6ed dosbarth a chynrychioli'r ysgol fel Prif Ddisgyblion.

Y datblygiad olaf mewn hyrwyddo llais y disgybl oedd **ymweliad Cwmni Da** i'r ysgol ar y 19eg o Fedi fel rhan o ymgyrch y BBC i ganfod barn pobl ifanc blwyddyn 10 -13. Yn ystod eu hymweliad cwblhawyd holiaduron barn gan nifer helaeth o ddisgyblion a holwyd cynrychiolaeth o bob blwyddyn ar gyfer rhaglen fydd yn cael ei ddarlledu gan y BBC ym mis Tachwedd.

Disgyblion YDC yn cefnogi elusennau:

Yn barod y tymor hwn mae disgyblion a staff Ysgol Dyffryn Conwy wedi casglu arian at ddwy elusen bwysig. Yn gyntaf ar ddydd Gwener 19/09/14 cafwyd diwrnod 'Jeans for Genes'. Drwy wisgo jeans a'u siwmperi ysgol llwyddodd y disgyblion a staff i gasglu arian at yr elusen hon. Dydd Gwener 26/09/14 cynhaliwyd bore goffi ar gyfer elusen cancer Macmillan. Yn ystod yr awr ginio gwerthodd blwyddyn 10 a 12 paneidiau, cacenni a danteithion eraill i'w cyd-ddisgyblion a staff gan gasglu £200 at yr elusen bwysig hon. Diolch i Mrs Gwenno Jarvis am drefnu ac i diwtoriaid blwyddyn 10 a 12 am eu cefnogaeth.

Llwyddiannau mewn chwaraeon:

Mae nifer o gemau peldroed a rugbi wedi eu cynnal dros yr wythos nesaf a cryn llwyddiant wedi bod i dimau'r ysgol. Hoffwn eu llongyfarch ar eu sgiliau, brwdfrydedd a'u ymroddiad i ymarfer a chwarae. Mae'r rhagolygol ar gyfer eleni yn argoeli yn dda iawn!

Tîm	Cystadlu yn erbyn	Canlyniad
Pêl Droed - tîm dan 14	John Bright Eirias	3-2 10-0
Pêl Droed - tîm dan 15	John Bright	3-2
Pêl Droed - tîm dan 18	Eirias	3-0
Rugbi - tîm dan 18	Eirias	36-17
Rugbi - tîm dan 16	John Bright	61-10
Rugbi - tîm dan 13	John Bright	50-0

Clwb Merlota YDC:

Braf yw gweld y Clwb Merlota yn parhau ac yn ennill aelodau newydd. Diolchwn yn fawr i rieni'r clwb am eu cefnogaeth a'u harweiniad. Bu aelodau'r clwb yn cynnal gweithgareddau dros yr wythnos diwethaf i gasglu arian ar gyfer eu cystadlaethau nesaf. Braf yw gweld y clwb yn mynd o nerth i nerth. Os hoffech

gael mwy o wybodaeth neu os oes diddordeb gennych mewn cefnogi/noddi gweithgareddau'r clwb cysylltwch â'r ysgol.

Clybiau a gweithgareddau trawsgwricwlaidd:

Mae'r cylch clybiau wedi cychwyn yn yr ysgol. Eleni mae nifer o glybiau newydd yn cael eu cynnal gan gynnwys clwb rygbi i ferched ar nos Iau wedi'r ysgol; clybiau'r urdd - gemwaith, dysgu sgiliau peintio gwyneb, ping pong ... Yngyd a pharhad mewn clybiau poblogaidd - clwb drama (nos Iau), clwb Pysgota (nos Fercher), clwb merlota (dyddiadau amrywiol), clwb Celf (amser cinio dydd Llun), clwb ffilm (amser cinio dydd Mawrth a dydd Iau), clwb gwaith cartref a chlwb gemau bob amser cinio. Yn cychwyn yn fuan hefyd fydd clwb pêl droed i fechgyn blwyddyn 7 (nos Fawrth), a chlwb Pyramid i flwyddyn 7 (gwybodaeth bellach i ddilyn). Bwriadau eraill sydd gennym yw cychwyn clwb pelrwyd a chlwb cyfrifiaduron. Ceir gwybodaeth am y clybiau o amgylch yr ysgol.

Gyda'r grant 5x60 yn diflannu mae cynlluniau diddorol ar gyfer clybiau/gweithgareddau eraill ym maes chwaraeon/athletau a chadw'n heini yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad efo'r Awdurdod Lleol a'r ganolfan hamdden. Bydd gwybodaeth bellach ar gael erbyn diwedd yr hanner tymor.

Sioe Gerdd 2014:

Mae'n bleser cyhoeddi y byddwn fel ysgol yn cynhyrchu sioe gerdd eto eleni. Ar ôl cryn gynllunio a dirgelwch gallwn rannu mae **'Peter Pan'** fydd y sioe gerdd eleni. Mae'r clyweliadau ac ymarferion wedi cychwyn a chryn fwrlwm a chynnwrf yn yr Adran Gerdd a Drama. Dymunwn yn dda i'r athrawon a'r criw o dalent ifanc fydd yn cydweithio i berfformio, cyfarwyddo, hyfforddi, marchnata a chreu setiau dros yr wythnosau nesaf. Bydd yn sioe yn cael ei berfformio dechrau wythnos olaf y tymor:

Matinee Ysgolion Cynradd : pnawn dydd Llun 15/12/14

Perfformiadau gyda'r hwyr: nos Fawrth 16/12/14, nos Fercher 17/12/14 a nos Iau 18/12/14.

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn at y perfformiadau a'r bwrlwm o ymarfer! Os oes gennych chi fel disgyblion, rhieni ac aelodau o gymuned ehangach yr ysgol ddiddordeb mewn cefnogi'r sioe *e.e. gwisgoedd, set, marchnata, noddi ...* cysylltwch â swyddfa'r ysgol: 01492 642800.

DIGWYDDIADAU HYDREF:

Diwrnodau Trawsgwricwlaidd: 6/10/14 a 9/10/14

Fel rhan o gynllun ABCh a sgiliau'r ysgol mi fydd y cwricwlwm yn cael ei ddiddymu am ddeuddydd er mwyn i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau atgyfnerthu'r cwricwlwm. Mi fydd gweithgareddau yn cynnwys: gweithdai sgiliau astudio i flwyddyn 10; diwrnodau adolygu/dal i fyny Saesneg a Mathemateg i flwyddyn 11; ymweliad i Ffair Sgiliau Conwy a'r Cynulliad i flwyddyn 10 a 12; gweithdai iaith dramor i flwyddyn 13; gweithgareddau sgiliau, gyrfaoedd a Hanes i flwyddyn 9; a gweithgareddau llythrennedd, ffitrwydd a creadigol i flwyddyn 7 ac 8. Fel rhan o'r wythnos bydd gweithgareddau cyfoethogi gwyddoniaeth yn cael eu cynnal gan Techniquet i wyddonwyr mwy abl a thalentog blwyddyn 7, 8 a 9 fel rhan o ymgyrch 18 mis i hybu pynciau STEM (*Science, Technology, Engineering and Mathematics*) mewn ysgolion ar draws y Gogledd.

Ymweliad blwyddyn 6 a noson agored i rieni blwyddyn 5 a 6:

Cynhelir ymweliad cyntaf blwyddyn 6 2014/15 ar **ddydd Llun y 6ed o Hydref**. Edrychwn ymlaen at eu cyfarfod ac at ddiwrnod blasu pynciol fydd yn cynnwys rhifedd, technoleg, cerddoriaeth a pherfformio ac

ysgrifennu creadigol yn y Saesneg. Ceir gwybodaeth bellach gan ysgolion cynradd y dalgylch. Edrychwn ymlaen hefyd at groesawu rhieni a disgyblion i noson agored ar **nos Fawrth y 7fed o Hydref o 5.30-7.30 y.h.** Bydd cyfle yn ystod y noson i ymweld â gwahanol adrannau'r ysgol, i gael gweld adnoddau a safle gwych yr ysgol ac i gyfarfod staff a disgyblion am y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol.

HMS 10/10/14 – Mi fydd yr ysgol yn cau i ddisgyblion ar ddydd Gwener y 10fed o Hydref er mwyn cynnal hyfforddiant mewnol i staff. Ceir gwybodaeth am ddyddiadau HMS eraill 2014/15 yn y Calendr ysgol a atodir isod.

Taith Addysgol i Efrog Newydd. Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 10 a 12 fydd yn mynd ar daith addysgol i Efrog Newydd ddechrau mis Hydref ynghyd a Mrs Gwenno Jarvis, Mr Roger Beech, Mrs Beca Brychan a Mrs Tesni Chaka. Gwn y can brofiad byth cofiadwy.

Teithiau Daearyddiaeth - Rydym wedi llwyddo i aildrefnu'r gweithgaredd maes Daearyddiaeth i flwyddyn 8 llynedd (blwyddyn 9 eleni) ar gyfer yr **7/10/14**. Yn ystod y dydd byddent yn ymweld â chanolfan bŵer Dinorwig. Mae llythyrau am y daith wedi eu rhannu eisoes efo disgyblion - nid oes cost ar gyfer yr ymweliad gan ei fod wedi ei gynnwys yng ngweithgareddau Wythnos Gweithgareddau 2013/14. Mae blwyddyn 11 Daearyddiaeth hefyd yn mynychu gwaith maes ar y 24ain o Hydref. Mae llythyrau wedi cael eu rhoi i'r disgyblion. Bydd y gwaith maes yn allweddol i'w gwaith cwrs daearyddiaeth. Ceir mwy o wybodaeth drwy gysylltu efo'r Pennaeth Adran.

Bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r flwyddyn addysgol yn ein **prospectws** 2015/16 a bydd y fersiwn ddiweddaraf ar ein gwefan erbyn Hydref 10fed gyda chopiau caled ar gael o'r Swyddfa. Bydd rhifyn diweddaraf o'r Bont hefyd ar gael cyn diwedd Tymor yr Hydref. Fel llynedd mi fydd yn gyfrol gwbl ddwyieithog ac mewn lliw.

I gloi, dymunaf flwyddyn addysgol arbennig iawn i'ch plentyn ac mae taith Ysgol Dyffryn Conwy tuag at ragoriaeth ym mhob agwedd yn parhau eleni. Anelwn i wella ar ein gorau blaenorol, llwyddiant Arolwg Mawrth 2014 a chanlyniadau Haf 2014 a rhoi i chi'r ddarpariaeth addysgol orau.

Elan Wyn Davies, Pennaeth.

29/09/14

PIGION YDC – Dathlu Llwyddiant mewn arholiadau allannol

Canlyniadau Lefel A: 2014

Rydym yn hynod falch unwaith eto at berfformiad da iawn disgyblion Ysgol Dyffryn Conwy eleni. Mae'r canlyniadau yn dangos llwyddiant cynyddol mewn cyrsiau Lefel A, Lefel A Galwedigaethol a'r BTEC, a hefyd cynnydd y Fagloriaeth Gymreig. Ymysg y disgyblion sydd wedi perfformio yn uchel iawn eleni mae: Lowri Roberts A*, A*, A, A; Elin Arfon, A*, A, A; Elin Wrennall A, A, A; Leah Hamilton A*, A, B; Lois Wynne A, A, B; Gwen Thomas A*, A, C; Amy Jones and Ceri Noble A, B, B; Roxanna Richardson Distinction*, A, C; Emily Watson Bacc, A, B, C; Erin Owen, Stephanie Jones and Hanna Dobson A, B, C; Erin Rossington Distinction-Merit, B, B; Morgan Evans Double Distinction, B, C; Jack Williams Bacc, B, C and Elen Hughes a Isabelle Adams B, B, B.

Ar ran yr Ysgol a'i Llywodraethwyr hoffwn longyfarch yr holl ddisgyblion, eu teuluoedd a'n staff ymroddgar am eu holl waith caled. Dymunwn yn dda i'n holl ddisgyblion ac i bob llwyddiant yn eu dyfodol. Byddwn yn edrych ymlaen at ddilyn eu llwyddiannau drwy'r Brifysgol, astudiaeth bellach a'u gyrfaoedd.

Canlyniadau TGAU 2014:

Mae Ysgol Dyffryn Conwy unwaith eto yn dathlu blwyddyn o ganlyniadau rhagorol. Rydym yn hynod falch o'n disgyblion a'u llwyddiannau, ac ar ran yr ysgol gyfan rydym yn eu llongyfarch nhw a'u teuluoedd ar y canlyniadau gwych! Mae ein llwyddiant yn holl haeddiannol ac edrychwn ymlaen at groesawu'r mwyafrif ohonynt yn ôl i'r 6ed dosbarth. Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i ddiolch i'n holl staff am eu gwaith caled parhaol. Mae rhesymau ychwanegol i ddathlu eleni hefyd efo'r BAC yn ychwanegu at lwyddiant a chymwysterau ein disgyblion a'u CVs cynhwysfawr.

Unwaith eto mae nifer o'n disgyblion wedi cyrraedd yr uchelfannau yn eu canlyniadau, gan gynnwys yr efeilliaid oedd ym mlwyddyn 11 eleni. Yn y llun mae Llywela (3A*, 6As) a Ceridwen Edwards (3A*, 7As) o Cerrigydrudion a Jasmine (1A*, 7A, 2B) a Hannah Cash (1A*, 4A, 4B) o Ddolgarrog. Cafodd y canlynol hefyd ganlyniadau rhagorol: Rhiannon Hughes (5A*, 4A, 1B), Ioan Owen (3A*, 4A, 3B), Joshua Bradnam (5A*, 4A), Rachel Gates (5A*, 3A, 2B), Branwen Morris (3A*, 5A, 2B), Llion Roberts (2A*, 7A, 1B), Jonathon Coates, (5A*, 3A, 1B), Luca Carpena (3A*, 3A, 3B), Ciara Rickard (3A*, 2A, 3B), Joachim Rigotti, (3A*, 2A, 3B), Bee Wylie (2A*, 3A, 2B, 2C). Dymunaf yn dda iddynt yn eu dyfodol boed hynny yn dychwelyd i'r 6ed, symud ymlaen i goleg neu fynd i fyd gwaith, prentisiaeth neu hyfforddiant arbenigol.

Seremoni Dathlu Llwyddiant 16/09/14

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd ein Seremoni Dathlu Llwyddiant nos Fawrth yr 16eg o Fedi. Roedd yn noson llawn iawn sydd yn dangos sut mae'r seremoni wedi ehangu dros y pedair blynedd diwethaf. Bu'n gyfle i ddathlu llwyddiannau nifer o'r disgyblion a enwir uchod ynghyd a llwyddiannau academaidd disgyblion CA3 yn eu hasesiadau diwedd cyfnod allweddol (Blwyddyn 9) a'r Profion Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol.

Dathlwyd llwyddiannau unigolion hefyd yn eu cyfraniadau at eu cymunedau lleol, at gymuned yr ysgol, at faes Hanes, ac wrth ymateb a heriau personol dros gyfnod arholiad. Cafodd llwyddiannau mewn maes chwaraeon eu cydnabod hefyd ynghyd a phresenoldeb 100% disgyblion unigol. Atodaf fanylion pellach am wobrau'r noson isod gan ddiolch i Lywodraethwyr yr ysgol, swyddogion GWE a'r Awdurdod Lleol, Rotari Dyffryn Conwy, Cymdeithas Hanes Llanrwst, Cyngor Tref Llanrwst am noddi gwobrau, ac i Arglwydd Dafydd Ellis Thomas fel gwystai gwadd am ei anerchiad a'i bresenoldeb yn y noson. Darllenwch ymlaen i gael blas ar y noson.



Arglwydd Dafydd Ellis Thomas a'r Uwch Dim Rheoli.

Gwobr TGAU y Rotari, Mr Richard Howe yn cyflwyno.

SEREMONI GWOBRWYO, 16/09/14

Gair o groeso gan y Pennaeth **Miss Elan Wyn Davies**
Anerchiad gan yr **Arglwydd Dafydd Ellis Thomas**

Ysgoloriaethau'r Llywodraethwyr: Canlyniadau gorau yn Arholiadau SU

William J Lewis : *Lowri Llwyd Roberts*

Dr. Harold Williams : *Elin Arfon, Elin Mair Wrennall*

Holt : *Leah Hamilton*

Eitem/Item 1: *'Au Printemps' gan Edvard Grieg, Unawd Piano Lowri Llwyd Roberts*

Ysgoloriaethau Cymdeithas Hanes Llanrwst: *Hanna Dobson, Elen Hughes, Erin Owen, Lois Wynne*

Gwobr Tref Llanrwst/Llanrwst Town Prize: *Ynyr Jones*

Gwobr Rotari TGAU: *Ceridwen Edwards, Llywela Edwards, Rhiannon Hughes, Rachel Gates, Jonathon Coates, Joshua Bradnam, Branwen Morus*

Gwobrau Ysgol UG: *Aron Kirkman Tolly Taylor Iestyn Thomas*

Eitem/Item 2: *'Pedair Waltz o Gymru', Rhiannon Hughes Bl.12*

Gwobrau CA3:

Anna Carpena, Elin Cawley, Chloe Congreve, Cadi Edwards, Anton Hazlehurst, Aron Hughes, Gwion Jones, Amelia Maddox, Gwenan Lewis, Bethany Richards, Hannah Roberts a Beca Williams.

Eitem Cydnabod Cyfraniadau Arbennig:

Tim Arwain 6ed Dosbarth: *Elin Arfon Stephanie Jones Emily Watson*

Cyngor Eco: *Rhydian Jones*

Prif Ddisgyblion: *Caradog Hughes a Morgan Evans*

Eitem/Item 3: *'O Llefara Addfwyn Iesu' trefniant Robot Arwyn, Ceridwen a Llywela Edwards, Bl.12*

Gwobr Cyrhaeddiad Rhagorol: *Lowri Llwyd Roberts*

Gwobrau Presenoldeb Llawn 2013-14:

Gruffudd Edwards 7M Lewis Jones 7G
Alexander Cotterill 8T Caron Davies 8T Sam Graham 8P Gareth Parry 8P Aron Williams 8T
Eve Jones 9G Jac Parry 9M Llinos Williams 9G Lora Williams 9M
Daniel Davies 10P Huw Jones 10M Dion Williams 10G

Victor Victrix Ludorum – Tariannau: Chwaraeon/Athletau

Blwyddyn 8/Year 8 – *Lowri Everiss Tom Cawley*
Blwyddyn 9/Year 9 - *Sara Roberts Morgan Owen*
Blwyddyn 10/Year 10 - *Llinos Williams, Jac Ellis, Tom Smith*

Cwpan Coffa Christie Holt: *Sara Roberts* *Morgan Owen*

Eitem/Item 4: *'Breuddwydiaf Freuddwydion' – Bethan Bryn, Beca Williams a Cadi Edwards Bl.10*

Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig:

Gareth Davies
Hedd Fôn
Caradog Hughes
Sophie Parry
Jordan Williams

Sgoriau Uchaf Profion Cenedlaethol Darllen a Rhifedd Haf 2014

Darllen Cymraeg:

Blwyddyn 7/Year 7 - Modlen Alun
Blwyddyn 8/Year 8 – Mali Williams
Blwyddyn 9/Year 9 – Gwennan Lewis

Darllen Saesneg:

Blwyddyn 7/Year 7 – Caspian Sunnerton-Burl a Carwen Williams
Blwyddyn 8/Year 8 – Rosy Pearson
Blwyddyn 9/Year 9 – Hannah Roberts

Rhifedd:

Blwyddyn 7/Year 7 – Cieran Kelly a Jared Eyre
Blwyddyn 8/Year 8 – Howard Wingfield a Efa Celyn Davies
Blwyddyn 9/Year 9 – Gwion Jones a Loui Harris.